THE CROWN ESTATE

# Adolygiad Cymru 2024/25



# Cyflwyniad



"Rydyn ni'n gweithio i chwarae ein rhan wrth gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i ddarparu swyddi cynaliadwy sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur wrth wneud teuluoedd yn well eu byd."

**Rebecca Williams**
Cyfarwyddwr y Gwledydd Datganoledig



**25 mlynedd**
o weithredu ar flaen y gad yn y sector ynni gwynt ar y môr

**£40 miliwn**
wedi'i fuddsoddi mewn arolygon ar gyfer ffermydd gwynt newydd

**£1.1 biliwn**
wedi'i gynhyrchu ar gyfer gwariant cyhoeddus yn 2024/25

## Croeso

Pleser yw rhannu'r adroddiad hwn ar ein gweithgareddau yng Nghymru eleni, sydd wedi'i baratoi yn ein canolfan newydd yng Nghaerdydd. Sefydlwyd Ystad y Goron i wasanaethu'r wlad ac rydym yn parhau i wneud cynnydd yn ôl ein strategaeth uchelgeisiol i gefnogi datgarboneiddio a diogeledd ynni, adfer natur a bioamrywiaeth, a chymunedau cynhwysol a thwf economaidd, wrth gynhyrchu enillion ariannol ar gyfer gwariant cyhoeddus. Yn y pen draw, ein nod yw adeiladu etifeddiaeth o ffyniant cyffredin parhaol.

Roedd pasio Deddf Ystad y Goron 2025 yn foment arwyddocaol yn ein hanes, gan sicrhau ein gallu i gyflawni'r uchelgeisiau hyn dros y tymor hir. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn adeiladu ar Ddeddf 1961 a'n creodd fel sefydliad annibynnol a masnachol, gan roi'r gallu inni fenthyca a buddsoddi mewn ystod ehangach o asedau. Mae hefyd yn cynyddu ein nifer uchaf o Gomisiynwyr o 8 i 12. Bydd gan dri o'r Comisiynwyr newydd gyfrifoldeb ychwanegol i roi cyngor ar amodau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon neu Loegr, ac mae'n ofynnol i bob un ystyried sut mae ein gweithgareddau'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth hon, a fydd yn helpu i gadw anghenion ac amgylchiadau unigryw Cymru wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau, ac edrychwn ymlaen at ddechrau proses recriwtio yn ystod y flwyddyn nesaf.

Roedd agor Hwb Caerdydd yn yr haf yn garreg filltir bwysig arall, wrth ein helpu i dyfu ein presenoldeb a chynnig man cyfarfod i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid sy'n cynnull, fel Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Gwynt ar y Môr Llywodraeth Cymru.

### Pennod newydd

Ym mis Awst 2024, penodwyd Eluned Morgan AS yn Brif Weinidog Cymru ac ar ôl cyfnod o ymgynghori, amlinellodd y blaenoriaethau ar gyfer ei Llywodraeth. Mae'r meysydd ffocws yn cynnwys hybu cyfleoedd addysg a chreu swyddi cynaliadwy sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac adfer natur wrth wneud teuluoedd yn well eu byd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ystad y Goron wedi chwarae ei rhan, gan weithio ar y cyd i gefnogi'r uchelgais hon. Mae'r pontio gwyrdd yn cynnig llu o gyfleoedd, gan helpu Cymru i aros ar flaen y gad o ran arloesi ynni adnewyddadwy a thrwy gydol y flwyddyn, mae cynadleddau fel Ynni'r Dyfodol Cymru ac Ynni'r Môr Cymru wedi helpu i arddangos busnesau blaenllaw a all yrru'r sector ymlaen.

Ein hannibyniaeth, gyda safle rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, yw un o'n hasedau mwyaf, sy'n ein

galluogi i gadw ymagwedd gyson a darparu gweledigaeth o ardaloedd prydlesu yn y dyfodol hyd at 2050 trwy ein Cynllun Gweithredu Morol, cynllun cyflawni strategol sy'n nodi defnyddiau posibl o wely'r môr yn y dyfodol, gan gynnwys prosiectau ynni a diwydiant a meysydd y gellid eu blaenoriaethu ar gyfer natur. Ochr yn ochr â hyn, rydym gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, a fydd yn cefnogi datblygu cynaliadwy dros amser. Bydd ein partneriaethau, yn enwedig gyda Great British Energy, yn helpu i yrru cynnydd pellach.

Fodd bynnag, mae hwn yn ddiamau yn gyfnod heriol, gyda'r diwydiant gwynt ar y môr yn gwynebu heriau byd-eang fel costau cynyddol a newidiadau polisi - a dyna pam ei bod hi'n bwysicach nag erioed sicrhau bod y DU a Chymru yn parhau i sefyll allan fel marchnad fuddsoddi sefydlog a diogel. Eleni, cyhoeddom ein Rhaglen Cynyddu Capasiti, a allai gynhyrchu capasiti ychwanegol trwy ddiwygio hawliau gwely'r môr ar gyfer sawl fferm wynt weithredol, gan gynnwys Awel y Môr oddi ar arfordir gogledd Cymru.

Rydym hefyd wedi parhau i ddatblygu cynlluniau i roi technoleg gwynt ar y môr arnofiol arloesol yn y Môr Celtaidd - gan symud Rownd Brydlesu Ynni Gwynt ar y Môr 5 yn gyflym trwy'r camau cyn-gymhwyso a Gwahoddiad i Dendro. Ym mis Mehefin, dyfarnwyd hawliau ar gyfer dau brosiect, gyda'r camau nesaf ar gyfer trydydd i'w cyhoeddi ym mis Medi. Mae dewis Equinor a Gwynt Glas fel y cynigwyr dewisol yn bleidlais o hyder ym marchnad y DU a fydd yn helpu i yrru datblygiad cadwyn gyflenwi ddiwydiannol newydd o amgylch y Môr Celtaidd.

Cwblhaodd Cyflymydd y Gadwyn Gyflenwi y rownd gyntaf o gyllido gwerth £5 miliwn ar gyfer prosiectau gyda'r nod o ysgogi'r gadwyn gyflenwi genedlaethol ar gyfer gwynt ar y môr arnofiol (gweler tudalen 11), gan gefnogi busnesau a darparwyr addysg i ddatblygu cyfleoedd yn y sector. Caeodd yr ail ffenestr gyllido ddiwedd mis Mehefin a chyhoeddir y canlyniadau yn ystod y flwyddyn nesaf.

## Y genhedlaeth nesaf

Yn ogystal ag ynni gwynt ar y môr, rydym yn cefnogi datblygiad technolegau newydd pwysig fel pŵer llanw a dal a storio carbon. Unwaith eto, mae gan y rhain y potensial nid yn unig i gefnogi datgarboneiddio cenedlaethol a diogeledd ynni, ond i greu cyfleoedd twf gwyrdd sylweddol yn y dyfodol, yn unol â strategaeth y Llywodraeth (gweler tudalen 10).

Eleni, aethom draw i ffeiriau gyrfaoedd ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd, ac ymestyn ein rhaglenni prentisiaeth ac interniaeth forol, gyda rhaglen bwrpasol newydd i ogledd Cymru mewn partneriaeth â Menter



Mae Dan Labbad (Prif Weithredwr) a Rebecca Williams o Ystad y Goron yn ymuno â Sarah Jones AS (Gweinidog Gwladol dros yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net), Jo Stevens AS (Ysgrifennydd Gwladol Cymru), Jack Sargeant AS (Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol) a David Rees AS yn ABP Port Talbot

Môn, M-Sparc ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a rôl yn Sir Benfro (gweler tudalen 7). Un o fy uchafbwyntiau personol o'r flwyddyn oedd helpu'r bobl ifanc hyn i adeiladu eu gyrfaoedd a'u profiad mewn sectorau arloesol.

Mae ymateb i'r argyfwng natur yn faes arall lle gall Ystad y Goron gefnogi a chyfrannu at uchelgeisiau cyffredin â Llywodraeth Cymru trwy reoli tir a gwely'r môr yn ofalus. Gwnaethom ddatblygu ein hymagwedd mewn partneriaeth â'r bobl a'r sefydliadau sy'n adnabod y tir a'r amgylchedd morol orau, a thrwy gydol y flwyddyn rydym wedi bod yn gweithio'n ymarferol, gan wrando ar bartneriaid mewn prosiectau adfer fel Prosiect Morwellt a siarad â'n tenantiaid ffermio i ddeall eu blaenoriaethau. Rydym wedi alinio ein Huchelgais ar gyfer Adfer Natur â'n dyletswydd statudol o dan adran 6 Deddf Amgylchedd Cymru, gan adnewyddu ein rhwymedigaethau a rhannu mwy o fanylion am sut rydym eisoes yn cyflawni dros natur.

Eleni, gwnaethom gynhyrchu elw refeniw net o £1.1 biliwn i'r pwrs cyhoeddus, canlyniad eithriadol sydd wedi'i yrru gan incwm o ffioedd opsiwn Rownd 4, a bennwyd mewn arwerthiant yn 2021 ac sy'n adlewyrchu amodau'r farchnad ar y pryd. Bydd yr incwm hwn yn lleihau o'r flwyddyn ariannol nesaf, wrth i'n cwsmeriaid datblygu naill ai ddechrau adeiladu neu adael eu prydlesi. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn buddsoddi'n sylweddol yn nyfodol ein busnes - er enghraifft trwy ddyrannu £40 miliwn ar gyfer arolygon cyn-ganiatâd ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr - ac rydym yn disgwyl gweld twf cyson dros amser.

Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol bod rhai yn dadlau y dylid sefydlu Ystad y Goron yng Nghymru fel sefydliad ar wahân. Yr hyn rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ei ddangos yw faint mwy o werth y gallwn ei greu i bobl a lleoedd yng Nghymru fel rhan o brosiect mwy. O fewn y flwyddyn nesaf, bydd ein tîm sydd wedi'i leoli yma yng Nghaerdydd, ynghyd â'n hasiantau lleol a'n hasiantau rheoli, yn parhau i weithio i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r gwerth hwnnw i Gymru ar gyfer nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Pwy ydym ni

## Mae Ystad y Goron yn fusnes annibynnol sy'n berchen ar dir ac yn ei reoli ar ran y genedl, gan weithio i greu buddion ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol dros amser.

Mae ein buddiannau yng Nghymru yn cynnwys ynni adnewyddadwy, fel prosiectau gwynt ar y môr a llanw. Rydym yn prydlesu gwely'r môr ar gyfer piblinellau olew a nwy, agregau morol (a ddefnyddir mewn adeiladu) a'r ceblau a'r rhyng-gysylltwyr tanddwr sy'n helpu i reoli'r cyflenwad trydan a chario traffig data rhyng-gyfandirol. Rydym hefyd yn rheoli tua 65% o wely'r afonydd blaen y traeth a'r llanw. Yn fewndirol, rydym yn stiwardiaid dros 50,000 erw o dir comin sy'n bennaf yn borfa garw, a ddefnyddir ar gyfer pori.

Wedi'n sefydlu gan Ddeddf Seneddol, rydym yn gweithredu'n annibynnol ac yn fasnachol i gynyddu gwerth ein portffolio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ychwanegodd Deddf Ystad y Goron 2025 at ein deddfwriaeth sefydlu, gan roi pwerau benthyca a buddsoddi newydd inni.

Mae Deddf 2025 yn darparu ar gyfer penodi Comisiynydd Bwrdd newydd gyda chyfrifoldeb dros roi cyngor ar amodau yng Nghymru, gan gryfhau ymhellach ein gallu i greu gwerth ar gyfer Cymru.



# Sut rydym yn creu gwerth

Mae ein gweithgareddau'n cael eu harwain gan ein pwrpas:
**creu ffyniant cyffredin parhaol ar gyfer y genedl**

## Rydym yn gweithredu ar draws tri maes busnes



### Morol
Rydym yn rheoli gwely'r môr a'r arfordir o amgylch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gefnogi'r pontio cenedlaethol i ddyfodol gwydn a chynaliadwy.



### Trefol
Mae ein hasedau eiddo tiriog yn amrywio o West End Llundain i gyrchfannau manwerthu a hamdden rhanbarthol a chyfleoedd datblygu cymysg sylweddol.



### Windsor a Gwledig
Rydym yn stiwardiaid mwy na 200,000 erw o dir gwledig, gan gynnwys Ystad Windsor a Great Park, ffermydd rhent ac ucheldiroedd a thir comin Cymru.

## Defnyddio ein prif gryfderau

Perchnogaeth eang, **gyda phortffolio amrywiol o asedau cenedlaethol**

**Annibyniaeth** a chyfle i gymryd golwg hirdymor

Y gallu i **ddod â rhanddeiliaid ynghyd** i fynd i'r afael â heriau

## I gyflawni ein strategaeth

– Sero net a diogeledd ynni
– Adfer natur a bioamrywiaeth
– Cymunedau cynhwysol a thwf economaidd
– Cynhyrchu enillion ariannol

**Ar gyfer dyfodol ein cenedl**

# Carbon sero net a diogeledd ynni

Mae'r byd fel rydym yn ei adnabod yn newid, ac nid yw'r angen am ddiogeledd ynni a datgarboneiddio erioed wedi bod yn fwy brys.

Trwy ein portffolio, gallwn wneud cyfraniad sylweddol trwy gynyddu capasiti mewn ynni adnewyddadwy – yn enwedig trwy wynt ar y môr, sy'n gyfle mawr i'r wlad adeiladu ei diogeledd ynni a lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil sy'n cael ei fewnforio.

Mae dros chwarter canrif bellach wedi pasio ers gosod tyrbin gwynt ar y môr cyntaf y DU; a dros ddau ddegawd ers i'r fferm wynt fawr gyntaf ddod yn weithredol yng Ngogledd Hoyle, oddi ar arfordir gogledd Cymru (yn y llun). Mae ein buddsoddiad yn y sector wedi hwyluso 12GW o gapasiti pŵer glân blynyddol hyd yn hyn – tua 14% o ofynion ynni'r DU, gan ddisodli tua 15 miliwn tunnell o $CO_2$ yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Ar hyn o bryd mae 36 o ffermydd gwynt gweithredol yn ein portffolio Morol, gan gynnwys tair yng Nghymru, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatgloi capasiti ychwanegol a darparu lle ar wely'r môr i gefnogi targed Llywodraeth y DU i ddefnyddio hyd at 50GW o gapasiti erbyn 2030.

Cyhoeddwyd ein Rhaglen Cynyddu Capasiti ym mis Mai 2025, a gallai gynhyrchu 4.7GW ychwanegol o gapasiti trwy ddiwygio hawliau presennol gwely'r môr i gynyddu capasiti saith fferm wynt ar y môr bresennol o amgylch Cymru a Lloegr, gan gynnwys Awel y Môr, oddi ar arfordir gogledd Cymru. Rydym hefyd wedi symud ymlaen â Rownd 5, a fydd yn rhoi ffermydd gwynt ar y môr arnofiol arloesol yn nyfroedd Cymru, gan gwblhau'r camau cyn-gymhwyso a gwahoddiad i dendro. Ym mis Mehefin 2025, dyfarnwyd hawliau gwely'r môr ar gyfer dau brosiect i Equinor a Gwynt Glas – menter ar y cyd rhwng EDF Renewables UK ac ESB – ac mae proses ar y gweill i ddarparu trydydd safle.Mae datblygiad y dechnoleg hon yn golygu y gellir gosod tyrbinau mewn ardaloedd â dyfroedd dyfnach, lle mae'r gwynt yn aml yn gryfach ac yn fwy cyson. Mae'r gwyntoedd gorllewinol yn y Môr Celtaidd yn ei wneud yn lleoliad perffaith ar gyfer yr arloesedd newydd hwn. Mae hyn yn cynnig cyfle unwaith-mewn-cenhedlaeth i Gymru fod ar flaen y gad mewn diwydiant byd-eang newydd cyffrous, gan greu cyfleoedd ar gyfer swyddi a buddsoddiad newydd. Er mwyn sicrhau bod y buddion yn cael eu rhannu, rydym yn gweithio i helpu datblygu sgiliau a thyfu capasiti cadwyn gyflenwi'r DU trwy ein Cyflymydd y Gadwyn Gyflenwi (gweler tudalen 10-11).

Mae Cymru hefyd yn lleoliad allweddol ar gyfer ynni llanw. Er mwyn datblygu'r dechnoleg ymhellach, gyda chefnogaeth gan bolisi a buddsoddiad Llywodraeth Cymru, rydym yn buddsoddi ym mhrosiect arddangos ynni'r llanw Morlais. Rheolir Morlais gan Menter Môn oddi ar arfordir Ynys Môn; hwn fydd y safle profi mwyaf sy'n gysylltiedig â'r grid yn Ewrop ac mae ganddo rôl hanfodol i'w chwarae yn natblygiad y dechnoleg newydd hon. Rydym wedi ymrwymo £2.6 miliwn i'r Rhaglen Ymchwil Nodweddion Morol, sy'n datblygu technoleg i leihau'r risg o daro mamaliaid morol.

Gwnaethom hefyd gyfrannu'n ariannol at Gomisiwn Aber Afon Hafren a fu'n gwerthuso'r potensial ar gyfer ynni amrediad llanw yn yr aber, gan archwilio'r cydbwysedd rhwng y cyfle economaidd ac ynni mewn ecosystem amgylcheddol hynod sensitif. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2025, gyda digwyddiad lansio yn y Senedd a Senedd y DU.

## Trydan a'r grid

Wrth i'r economi drydaneiddio, rydym yn gweithio'n agos gyda'r datblygwyr, National Energy System Operator, y Grid Cenedlaethol (sy'n berchen ar y rhwydwaith trawsyrru yng Nghymru a Lloegr), a llawer o randdeiliaid eraill ar gynlluniau datblygu ar gyfer y rhwydwaith trydan o amgylch arfordir Cymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys prydlesu a thrwyddedu'r rhyng-gysylltwyr trydan sy'n cydbwyso cyflenwad a galw rhwng gwledydd – fel Greenlink, a ddaeth yn weithredol ym mis Ionawr 2025, sy'n cysylltu Cymru ac Iwerddon. Bydd ein partneriaeth â Great British Energy yn helpu ymhellach i gyflymu'r defnydd o seilwaith ynni glân.



## Tynnu a storio carbon

Wrth helpu i adeiladu cyflenwad ynni domestig adnewyddadwy, rydym yn asesu sut y gall ein portffolio gefnogi camau tynnu carbon: ymchwilio i botensial atebion arloesol fel biosiarcol a hindreulio, a datblygu ein dull o ymdrin â'r 'carbon glas' sy'n cael ei ddal a'i storio ar wely'r môr. Mae gan y DU rai o adnoddau naturiol gorau'r byd ar gyfer storio carbon, sy'n rhoi cyfle inni arwain mewn dal a storio carbon (CCS) - technoleg newydd sy'n dal $CO_2$ o ffynonellau diwydiannol anodd eu lleihau, ei gludo a'i storio o dan y ddaear. Rydym yn gyrru cynnydd trwy gyflwyno prydlesi ar gyfer cludo piblinellau ar y môr a storio $CO_2$ ar wely'r môr.

Ym mis Hydref 2024, dyfarnwyd Cytundeb ar gyfer Prydles ar gyfer prosiect arloesol gan Eni, datblygwr blaenllaw, a fydd yn dal $CO_2$ o glwstwr diwydiannol HyNet yng ngogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, gan ei gludo i gronfeydd nwy naturiol sydd wedi'u disbyddu o dan Fôr Iwerddon i'w storio. Dyma fydd prosiect CCS cyntaf y DU i ailbwrpasu seilwaith presennol, ac unwaith y bydd ar waith gallai gael gwared ar hyd at 10 miliwn tunnell o $CO_2$ o'r atmosffer bob blwyddyn.

Wrth i effeithiau newid hinsawdd ddod yn amlwg, rydym yn ehangu cwmpas ein gwaith y tu hwnt i addasu ein portffolio ein hunain i ystyried ein rôl wrth adeiladu gwydnwch ar lefel leol mewn cydweithrediad â phartneriaid a gwneuthurwyr penderfyniadau. Bydd y gwaith hwn yn ffocws sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.

**3**

fferm wynt ar y môr yn gweithredu yn nyfroedd Cymru

**10 miliwn tunnell**

o $CO_2$ y flwyddyn gael ei storio ym mhrosiect arloesol Eni

**£2.6 miliwn**

o gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer prosiect arddangos ynni'r llanw Morlais



## Ar lawr gwlad: Don Harty

**Cafodd y cyn-intern Don swydd barhaol yn ein helpu i ddatgloi ynni'r llanw**

### Beth mae eich rôl yn ei olygu?

Rwy'n gynghorydd asedau yn y tîm ynni newydd, yn cefnogi datblygiad llif llanw, amrediad llanw a thechnolegau eraill fel pŵer solar arnofiol. Mae gan y DU gyfle i fod yn arweinydd byd-eang mewn ynni'r llanw, gan ddarparu ynni glân, rhagweladwy a chreu swyddi mewn ardaloedd arfordirol.

### Soniwch am eich cefndir

Gan i mi gael fy magu yn Guernsey, treuliais fy mhlentyndod o amgylch y môr. Astudiais ddaearyddiaeth forol ym Mhrifysgol Caerdydd ac ysgrifennais fy nhraethawd hir ar ynni morol, ond cefais drafferth dod o hyd i swydd yn y maes pan raddiais, felly gwnes gais am Interniaeth Ymchwil Forol yn Ystad y Goron.

### Sut wnaeth yr interniaeth eich helpu?

Gwnes i ei mwynhau'n fawr iawn. Llwyddais i aros yn Sir Benfro, gan wneud prosiect chwe mis yn edrych ar sut y gall ymgysylltu ag ynni morol greu gwerth i bobl a lleoedd. Cefnogais hefyd adroddiad ar effeithiau posibl dyfeisiau llif llanw ar famaliaid morol, ac roeddwn wrth fy modd pan gefais gynnig swydd barhaol fel cynghorydd asedau yn y tîm ynni newydd.

### Pam mae eich rôl wedi'i lleoli yn Sir Benfro?

Mae safle pwysig yn aber Aberdaugleddau o'r enw Ardal Profi Ynni'r Môr, lle gellir profi dyfeisiau tonnau a llanw mewn amodau bywyd go iawn cyn eu cludo allan i safle fel Morlais, y safle llanw sydd wedi'i gysylltu â'r grid yng ngogledd Cymru. Pan gefais y swydd, roedd aros gerllaw a defnyddio swyddfa Caerdydd yn gwneud synnwyr, ac mae'n golygu fy mod i'n dal yn agos at y môr.

### Beth yw eich nodau ar gyfer y dyfodol?

Rwy'n angerddol iawn am ynni'r llanw ac yn llawn cyffro ynghylch datblygu fy ngyrfa i gyd-fynd â'r diwydiant. Rwy'n gweld y cyfle sy'n bodoli yng Nghymru ac mewn cymunedau ynysoedd fel yr un y cefais fy magu ynddi, a byddwn wrth fy modd yn ei weld yn llwyddo yma ac o gwmpas y byd.

# Adfer natur a bioamrywiaeth

Fel stiwardiaid amgylcheddau gwledig, arfordirol a morol, mae cyfrifoldeb arnom i gefnogi bioamrywiaeth, adfer ecosystemau a gwella'r byd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ym mis Ionawr 2025, gwnaethom rannu mwy o fanylion ar sut y byddwn yn gwneud hyn fel rhan o'n dyletswyddau o dan Adran 6 o Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016, sy'n cyd-fynd â'n Huchelgais Natur. Mae'r ddogfen hon yn nodi nodau a thargedau mesuradwy yn unol â thargedau byd-eang a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, strategaeth a chynllun bioamrywiaeth cenedlaethol i Gymru, ac fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid o Gymru sy'n adnabod y tir a'r gofod morol orau.

Dros gyfnod o sawl mis, buom yn ymgynghori â sefydliadau gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, WWF Cymru, RSPB Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Llywiodd eu harbenigedd mewn cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau ein tri nod craidd:

- Cyflawni mwy o fioamrywiaeth
- Diogelu ac adfer systemau dŵr croyw, morol ac arfordirol
- Cynyddu buddion cymdeithasol a lles o natur

Wrth wraidd ein huchelgais mae ymrwymiad i effaith fesuradwy. Nid yw cymryd camau gweithredu da eu bwriad yn ddigon; mae angen i ni ddeall effaith ein holl weithgarwch busnes ar natur a gwneud penderfyniadau sy'n creu canlyniadau cadarnhaol i natur.

I'n helpu i wneud hyn, rydym wedi llunio llinell sylfaen bioamrywiaeth ar gyfer ein portffolio, ac rydym yn ymdrechu i barhau i wella a datblygu'r data hwn.

Wrth i ni geisio creu effaith gadarnhaol ar y cynefinoedd naturiol a'r rhywogaethau sy'n ffynnu yng Nghymru, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r llywodraeth, busnesau, sefydliadau cadwraeth a chymunedau lleol. Er enghraifft, gan adeiladu ar brosiect peilot llwyddiannus a gynhaliwyd gyda chymdeithasau pori mewn partneriaeth â Grŵp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru, byddwn yn gweithio gyda chominwyr sydd â hawliau pori, cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu gweledigaethau adfer natur a rhoi cynlluniau gweithredu natur ar waith ar gyfer tiroedd comin dethol sydd o fewn ein perchnogaeth.

## Interniaethau morol yng Ngogledd Cymru

Yn 2024, gwnaethom lansio Interniaeth Forol gyntaf gogledd Cymru mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Menter Môn ac M-SPARC. Roedd pob sefydliad yn darparu cyfleoedd i ddau berson ar ddechrau eu gyrfaoedd i ennill profiad mewn cadwraeth forol, ynni adnewyddadwy, polisi morol ac ymgysylltu cymunedol.



Gan weithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, cefnogodd Ystad y Goron yr interniaid i ymgymryd â mapio adfer morwellt ar draws Penrhyn Llŷn ac Ynys Môn, a chynnal digwyddiadau cymunedol yn Llandudno, Porth Meudwy a Rhoscolyn gyda'r nod o gyflawni amcanion achub y cefnfor. Gwnaethant hefyd gyfrannu at y Prosiect Nodweddion Morol gyda Menter Môn trwy helpu i ddatblygu cynlluniau monitro a lliniaru amgylcheddol i amddiffyn bywyd gwyllt y môr.

Trwy'r rhaglen, cafodd interniaid drosolwg cynhwysfawr o gyfleoedd am yrfaoedd posibl yn y sector morol. Bu'r fenter hefyd yn gyfle gwerthfawr ar gyfer cydweithio traws-sector a throsglwyddo gwybodaeth ynghylch bywyd gwyllt y môr.



## Cynorthwyo morwellt

Mae dolydd morwellt yn gynefin hanfodol i forfeirch a physgod, yn ogystal â hidlo dŵr a dal llawer iawn o garbon. O ystyried ein blaenoriaethau i gefnogi datgarboneiddio, adfer natur ac ansawdd dŵr, mae Ystad y Goron yn ceisio mynd ati i helpu adfer morwellt o amgylch Cymru. Eleni, gwnaethom ail-drwyddedu treial adfer morwellt cyntaf y DU, Prosiect Morwellt yn Dale, Sir Benfro - gan gynyddu ei gwmpas o ddau i dri hectar. O dan nawdd WWF a Sky Ocean Rescue, mae'r prosiect yn cynnwys profi gwahanol ddulliau o blannu, o blannu morwellt mewn bagiau hesian i ddefnyddio robotiaid tanddwr, a monitro'r canlyniadau dros amser. Cymerodd gwirfoddolwyr o dîm Ystad y Goron ran mewn sesiwn blannu ym mis Mawrth ac edrychwn ymlaen at weld Prosiect Morwellt yn ehangu ei gwmpas a rhannu ei ddysg.

**£50 miliwn**

o gyllid ar gyfer ymchwil trwy OWEC

Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i adfer ac amddiffyn rhywogaethau fel wystrys a morwellt sy'n cefnogi ecosystemau morol iach. Roeddem yn ffodus i gael ein gwahodd i fynychu gweithdy Gwobr Earthshot ochr yn ochr â'i Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn edrych cyfleoedd amgylcheddol ac economaidd o amgylch dyframaeth, ac rydym wedi cyd-gynnull sesiwn waith ar yr un pwnc gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Ynghyd â WWF, cyhoeddom 'Gwerth Dyfodol Ffermio Gwymon yn y DU' ym mis Hydref. Gwnaethom hefyd gysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a chyfrannu at sgyrsiau mewn digwyddiadau allweddol fel Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Uwchgynhadledd Adfer Afonydd Cymru a digwyddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru.

## Ariannu natur

Bydd galluogi adfer natur yn gofyn am gyllid sylweddol dros y tymor hir. Am y rheswm hwn, rydym yn buddsoddi mewn natur ar raddfa fawr ac yn ymchwilio i botensial marchnadoedd cyfalaf naturiol, a allai ddarparu'r ffynonellau ariannu cynaliadwy sydd eu hangen ar y wlad. Mae ein cyfraniad yn cynnwys y rhaglen Tystiolaeth a Newid Gwynt ar y Môr (OWEC), sy'n rhoi £50 miliwn o gyllid gan Ystad y Goron a £12 miliwn mewn cyfraniadau gan bartneriaid i gefnogi ymchwil i alluogi pontio ynni'r DU wrth sicrhau bod ecosystemau morol ac arfordirol yn ffynnu.

Mae un prosiect OWEC, a elwir yn Frontward, yn darparu mewnwelediadau hanfodol i flaenau cefnforoedd (ardaloedd lle mae dau gorff o ddŵr yn cwrdd) a sut y gallant weithredu fel dirprwy ar gyfer bioamrywiaeth. Mae'r prosiect sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Bangor yn ganolog i ddeall rhywogaethau symudol, pwnc sy'n anodd iawn i gael tystiolaeth ohono, a bydd yn helpu i lywio ein penderfyniadau datblygu a'n hymdrechion adfer.

Er bod ein cynnydd yn ôl ein nodau newydd mewn cyfnod cymharol gynnar, a'n bod yn disgwyl ailadrodd ein dull, credwn y bydd ein fframwaith i ddeall, dylunio ar gyfer, creu partneriaethau ar gyfer ac ariannu natur yn cynhyrchu canlyniadau dros amser – gan gefnogi ffyniant ecolegol ac economaidd i greu Cymru iachach a mwy gwydn.

# Cymunedau cynhwysol a thwf economaidd

Fel cwmni annibynnol a sefydlwyd i wasanaethu'r wlad, rydym yn ceisio sicrhau bod ein buddsoddiadau a'n partneriaethau mewn sectorau allweddol yn cynnig buddion gwirioneddol i bobl a lleoedd.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y bydd datblygu sylfaen sgiliau gref yn hanfodol nid yn unig i gyflawni'r newid gwyrdd, ond i greu cyfleoedd ledled y wlad. Amcangyfrifodd Cynllun Twf Diwydiannol y DU a ddatblygwyd gennym mewn partneriaeth â RenewableUK, y Cyngor Ynni Gwynt Ar y Môr ac Ystad y Goron yn yr Alban y bydd nifer y swyddi mewn ynni gwynt ar y môr yn codi o 32,000 i 100,000 erbyn 2030.

I gefnogi twf yn y sector hanfodol hwn a sicrhau bod y buddion yn cael eu rhannu, rydym yn gweithio gyda darparwyr addysg i ddatblygu cymwysterau sy'n cefnogi anghenion y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys perthynas sefydledig â Choleg Sir Benfro, sydd wedi cynnal cwrs peilot o'r enw Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy i roi'r sgiliau gweithgynhyrchu a thechnegol sydd eu hangen ar y sector i fyfyrwyr. Mae'r coleg wedi cael cyllid trwy Gyflymydd y Gadwyn Gyflenwi (gweler yr astudiaeth achos) i ehangu ei ddarpariaeth o bosibl.

Mae ein gweithgareddau i ennyn diddordeb pobl iau yng Nghymru ynghylch pynciau a gyrfaoedd cynaliadwyedd yn cynnwys dod â Minecraft Education i ysgolion, a chreu partneriaeth â Gwasanaeth y Sea Rangers, gan hyfforddi Sea Rangers i gasglu data amgylcheddol yn y Môr Celtaidd.

Yn unol â'n dull seiliedig ar le o ran effaith gymdeithasol, rydym hefyd yn darparu cyllid catalytig ar gyfer prosiectau bach, dan arweiniad y gymuned, sy'n creu gwerth ar lefel leol. Un or enghreifftiau o'r flwyddyn hon oedd astudiaeth ddichonoldeb a fu'n archwilio ystod o brosiectau sgiliau ac effaith gymdeithasol a oedd yn edrych ar wella ymgysylltiad â phobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, cymunedau anodd eu cyrraedd a phobl ifanc ledled de-orllewin Cymru.

Yn ogystal â'n rhaglenni prentisiaeth ac interniaeth ein hunain, mae datblygwyr y ffermydd gwynt ar y môr arnofiol newydd wedi ymrwymo i sicrhau bod o leiaf 3.5% o'r gweithlu yn brentisiaid a bod gan 10% o'r gweithwyr 19-24 oed statws NEET. Mae ein gweithgareddau mewn sectorau fel porthladdoedd ac agregau morol, sy'n darparu 35% o'r tywod a'r graean sydd eu hangen ar gyfer adeiladu yng Nghymru, yn cefnogi swyddi a chyfleoedd economaidd ymhellach. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i ehangu ein gweithgareddau, gan ganolbwyntio ar sut y gallwn gyflawni effaith gymdeithasol ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

buddsoddiad o

**£5 miliwn**

yng nghadwyn gyflenwi ynni gwynt ar y môr

gellid creu

**100,000**

o swyddi yn y sector ledled y DU

y byd Minecraft Education wedi cael ei lawrlwytho

**1.3 miliwn**

gwaith hyd yma

## Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gyda Minecraft

Mae ysbrydoli pobl ifanc i ymddiddori mewn cynaliadwyedd ac ystyried gyrfaoedd mewn meysydd fel ynni glân a chadwraeth yn hanfodol i gyflawni'r pontio gwyrdd ac i dwf economaidd Cymru yn y dyfodol. Er mwyn eu helpu i dyfu eu gwybodaeth a'u sgiliau, gwnaethom fanteisio ar bŵer Minecraft, y gêm fideo sy'n gwerthu orau erioed.

Trwy ein partneriaeth â Microsoft UK, gwnaethom greu Her Ynni Gwynt ar y Môr, byd Minecraft Education. Ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg, mae'r her yn gwahodd myfyrwyr 7-14 oed i weld a allant bweru pentref arfordirol trwy ddylunio ac adeiladu fferm wynt ar y môr.

Yna gwnaethom greu cynlluniau gwersi a deunyddiau addysgu sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r rhain ar gael ar blatfform dysgu Hwb Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi cysylltu ag ASau lleol a Gweinidogion Cymru i gynnig cyfraniadau pellach at y Cwricwlwm newydd i Gymru. I ddysgu mwy am y prosiect, gwyliwch y fideo yn thecrownestate.co.uk/minecraft



# Hwb o £5 miliwn ar gyfer twf gwyrdd

Gwnaethom greu Cyflymydd y Gadwyn Gyflenwi gwerth £50 miliwn yn 2023/24 fel ffordd o feithrin capasiti ymhlith busnesau'r DU – gan gefnogi twf yn y dyfodol yn y sector gwynt ar y môr a helpu i ledaenu'r buddion ledled y wlad. Ym mis Rhagfyr 2024, cwblhawyd ein rownd ariannu gyntaf, gan ddyfarnu cyfanswm o £5 miliwn o gyllid cyfatebol i 13 o sefydliadau gyda phrosiectau cynnar a allai helpu i adeiladu'r gadwyn gyflenwi ddomestig ar gyfer gwynt ar y môr.

Cafodd prosiectau eu gwerthuso ar nifer o feini prawf, ac un ohonynt oedd eu gallu i gyflawni'r gofynion a nodir yng Nglasbrint y Môr Celtaidd, o seilwaith a logisteg i sgiliau allweddol. Mae'r glasbrint yn rhagweld, os y manteisir ar y cyfleoedd hyn, gallai defnyddio gwynt ar y môr arnofiol yn y dyfroedd oddi ar dde Cymru a de-orllewin Lloegr roi hwb economaidd sylweddol a chreu hyd at 5,300 o swyddi.

Ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus roedd Marine Power Systems, cwmni ynni adnewyddadwy yn Abertawe sy'n datblygu llwyfannau gwynt ar y môr arloesol. Bydd ein harian cyfatebol yn cefnogi'r cwmni, sy'n dal i gwblhau prosiectau dylunio ac arddangos, i ganolbwyntio ar weithgynhyrchu yn y dyfodol trwy gwblhau astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cyfleuster ym Mhort Talbot. Bydd hyn yn asesu ymarferoldeb seilio cynhyrchu yn y porthladd, gan ddefnyddio dur lleol a llwyfannau cludo allan i'r Môr Celtaidd neu i brosiectau ymhellach i ffwrdd – gan helpu'r busnes i sicrhau y gall fodloni'r galw am bris cystadleuol yn fyd-eang.





"Mae gwynt ar y môr yn dod â chyfleoedd gwych i Gymru, a bydd y cyllid hwn yn ein helpu i baratoi gweithlu medrus iawn yng Nghymru."

**Mark Dacey**
Grŵp Colegau NPTC

"Er mwyn cwrdd â maint y gofynion rydym yn credu y bydd gan brosiectau, mae gan wneuthurwyr presennol yr arbenigedd ond nid y gallu i fodloni maint y gofynion sydd eu hangen," eglura Madeline Cowley, rheolwr prosiect yn Marine Power Systems. "Mae ein rhagamcanion yn awgrymu y gallai'r cyfleuster gynhyrchu hyd at 30 o lwyfannau y flwyddyn, a fydd yn creu swyddi mewn saernïo ac o fudd i gyflenwyr dur."

Bydd darparu llwybrau at yrfaoedd newydd mewn ynni gwynt ar y môr yn hanfodol i sicrhau bod teuluoedd a chymunedau'n teimlo'r manteision, felly mae Grŵp Castell-nedd Port Talbot yn defnyddio'r cyllid i osod y sylfaen ar gyfer academi sgiliau gwynt ar y môr arnofiol ym Mhort Talbot. "Ein nod yw sicrhau bod cymunedau a diwydiannau lleol yn hollol barod i harneisio'r cyfleoedd a gyflwynir gan y chwyldro gwynt ar y môr arnofiol." meddai Mark Dacey, Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Colegau NPTC. Yn y cyfamser, mae Coleg Sir Benfro yn trafod y posibilrwydd o gyfleuster sgiliau pontio ynni i greu llwybrau i bobl leol gael swyddi yn y sector. Daeth ail rownd ariannu'r Cyflymydd i ben ddiwedd mis Mehefin 2025.

## Adroddiadau 2024/25

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol
Adolygiad Cymru (Cymraeg a Saesneg)
Adolygiad Gogledd Iwerddon
Atodiad Data Cynaliadwyedd
Meini Prawf Adrodd Amgylcheddol

Gellir lawrlwytho ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/25 a'n hadroddiadau atodol yn:
**thecrownestate.co.uk/annual-report**

## Cydnabyddiaeth ffotograffau

**Tudalen 3**
Rob Norman a ABP

**Tudalen 6**
Drwy garedigrwydd Vestas Wind Systems AS

**Tudalen 8**
Morlais gan Brifysgol Bangor

**Tudalen 11**
MPS

THE CROWN ESTATE


**Llundain**
**The Crown Estate**
1 St James's Market
London
SW1Y 4AH

**Ff** 020 7851 5000

**Windsor**
**The Crown Estate**
The Great Park
Windsor
SL4 2HT

**Ff** 01753 860 222

**Caerdydd**
**Ystad y Goron**
Hodge House
114-116 Stryd y Santes Fair
Caerdydd
CF10 1DY

**thecrownestate.co.uk**
**@TheCrownEstate**